# Adroddiad Cadeirydd Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) – 14 Gorffennaf 2022

Adroddiad Cadeirydd Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) – 14 Gorffennaf 2022

WFAC 22/07/02

## 1. Crynodeb

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb byr o'r materion a ystyriwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022, yn ogystal â gweithgareddau eraill sy'n berthnasol i gylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru.

1.2 Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i wneud y canlynol:

- nodi trafodaethau'r Bwrdd
- gwahodd y Cadeirydd i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach

## 2. Cyfarfod y Bwrdd

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod agored diwethaf y Bwrdd yn Newcastle ar 15 Mehefin 2022. Ystyriodd y Bwrdd y materion canlynol:

- **Ymateb yr ASB i Darfu ar y Gadwyn Gyflenwi oherwydd y Rhyfel yn Wcráin - Amnewid Cynhwysion a Labelu:** Roedd y papur hwn yn rhoi trosolwg cyfunol ar ymateb yr ASB i darfu ar y gadwyn gyflenwi yn sgil y rhyfel yn Wcráin, ac yn nodi'r profion dros dro y mae'r ASB wedi'u datblygu i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch amnewidion olew blodau'r haul a labelu sy'n ymwneud â hyn. Roedd yn cynnwys y dull arfaethedig ar gyfer dychwelyd at y dull arferol o labelu bwyd a thybiaethau cynllunio cysylltiedig. Soniais am bryderon WFAC ynghylch sicrhau bod canllawiau ar gael yn rhwyddach i ddefnyddwyr yn ogystal â phwysigrwydd arferion gorau.
- **Diweddariad Blynyddol ar Wyddoniaeth gan Brif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB:** Adroddiad blynyddol yn rhoi trosolwg ar rôl Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB, gwyddoniaeth o fewn yr ASB, a'r adolygiad o'r Pwyllgorau Cynghori Gwyddonol. Adlewyrchais ddiddordeb WFAC mewn cynyddu cyfranogiad Cymru yn y gwaith gwyddonol, gan adrodd hefyd fod y Pwyllgor yn croesawu'r defnydd o weithdai gyda Microbiolegwyr, gyda chyfranogiad o Gymru, gan fod mantais i'r gwledydd datganoledig gael eu cynnwys.
- **Swyddogaeth Ragweld a Sganio'r Gorwel – Diweddariad Blynyddol i'r Bwrdd:** Diweddariad blynyddol ar waith i ddatblygu a gweithredu swyddogaeth ragweld yr ASB. Ynghyd â thrafodaethau'r diwrnod blaenorol, roedd hyn yn tanlinellu maint a chyflymder y newid sy'n wynebu'r diwydiant bwyd, ac yn sgil hynny, yr ASB.
- **Gorsensitifrwydd i Fwyd – diweddariad ar ffrydiau gwaith a'r camau nesaf a argymhellir:** Roedd y papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y gwaith a wnaed fel rhan o'r Rhaglen Gorsensitifrwydd i Fwyd a'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y cam nesaf. Codais yr angen i gynorthwyo busnesau llai a thynnais sylw at y ffaith y gallai incwm o sancsiynau sifil gael ei ddychwelyd i awdurdodau lleol.

- **Y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl):** Roedd y papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl), a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines ar 10 Mai 2022, ac roedd yn amlinellu'r broses seneddol a'r amserlenni. Nodais y byddai WFAC yn bwrw golwg manwl ar y pwnc hwn ym mis Gorffennaf, a rhybuddiais am y risg o wahaniaethau ar y pwnc hwn gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar ei safbwynt terfynol eto.
- **Diffyg Diogeledd Bwyd yn y Cartref:** Roedd y papur hwn yn crynhoi'r dystiolaeth sydd gennym am lefelau diffyg diogeledd bwyd a fforddiadwyedd bwyd yn y cartref, a'r effaith ar ddefnyddwyr a'r system fwyd. Dywedais wrth y Bwrdd am y Ford Gron a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru ar 11 Mai.
- **Amcanion a Blaenoriaethau Rhyngwladol yr ASB:** Roedd y papur hwn yn nodi amcanion a blaenoriaethau rhyngwladol yr ASB ar gyfer y 12 i 18 mis nesaf.

2.2 Bydd recordiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin ar gael ar wefan yr ASB, ynghyd â chofnodion y cyfarfod pan gânt eu cyhoeddi.

2.3 Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym Melffast 14 Medi 2022.

# 3. Cyfarfodydd eraill

3.1 Y diwrnod cyn cyfarfod y Bwrdd ar 15 Mehefin, rhannwyd aelodau'r Bwrdd yn dri gr?p ar gyfer ymweliadau â Phrifysgol Newcastle, Greggs a FareShare. Roeddwn yn rhan o'r gr?p a oedd yn ymweld â'r Brifysgol, a dysgais am y gwaith mewn meysydd uwch-dechnoleg sy'n ymwneud â bwyd a'i effeithiau amgylcheddol. Cyflawnwyd rhywfaint o'r gwaith hwn ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd.

3.2 Ar 16 Mehefin, ar ôl dychwelyd o Newcastle y noson gynt, cawsom gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) ar-lein a wnaeth ymdrin â rhai materion a drafodwyd yn ehangach gan y Bwrdd.

3.3 Ar 5 Gorffennaf, gydag aelodau eraill o WFAC, es i ddigwyddiad dros ginio lle cynhaliodd yr Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr ASB, drafodaeth breifat â ni, a oedd yn debyg i'r hyn a ragwelais wrth ofyn am gyfle o'r fath.

3.4 Ar 6 Gorffennaf, unwaith eto gydag aelodau eraill o WFAC, bûm yn bresennol yn y digwyddiad yn y Senedd lle lansiodd Susan Adolygiad Blynyddol yr ASB o Safonau Bwyd y DU, a lle siaradodd y Dirprwy Weinidog Lynne Neagle hefyd. Roeddem yn falch bod Prif Weithredwr yr ASB, Emily Miles, swyddogion Llywodraeth Cymru a llawer o gynrychiolwyr sefydliadau rhanddeiliaid wedi ymuno.

Peter Price
Aelod o Fwrdd Cymru a Chadeirydd WFAC